# Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

**2022 dsc 1**

## RHAN 4

PRENTISIAETHAU

*Swyddogaethau'r Comisiwn*

### 117 Llunio a chyhoeddi fframweithiau prentisiaethau

(1) Caiff y Comisiwn lunio fframweithiau prentisiaethau neu sicrhau eu bod yn cael eu llunio.

(2) Caiff y Comisiwn gyhoeddi fframweithiau prentisiaethau sydd wedi eu llunio gan y Comisiwn ei hunan neu gan bersonau eraill (pa un a yw'r Comisiwn wedi sicrhau eu bod yn cael eu llunio ai peidio).

(3) Rhaid i fframwaith prentisiaeth a gyhoeddir o dan yr adran hon gydymffurfio ag unrhyw ofynion a bennir o dan adran 115.

(4) Caiff fframwaith prentisiaeth bennu gofynion ar lefelau cyrhaeddiad gwahanol ar gyfer yr un alwedigaeth neu grŵp o alwedigaethau, naill ai o fewn yr un fframwaith prentisiaeth neu mewn fframweithiau ar wahân.

(5) Caiff fframwaith prentisiaeth gynnwys unrhyw ddeunydd sy'n berthnasol i brentisiaeth Gymreig gymeradwy yn yr alwedigaeth neu'r grŵp o alwedigaethau y mae'r fframwaith yn ymwneud â hi neu ag ef, neu sy'n berthnasol i brentisiaethau Cymreig cymeradwy yn gyffredinol.

(6) Rhaid i'r Comisiwn wneud trefniadau i gadw pob fframwaith prentisiaeth a gyhoeddir o dan adolygiad gyda golwg ar benderfynu a ddylai'r fframwaith gael ei ddiwygio neu ei dynnu'n ôl.

(7) Caiff y Comisiwn—

(a) cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o fframwaith prentisiaeth, neu
(b) tynnu fframwaith prentisiaeth yn ôl (gan gyhoeddi fframwaith arall yn ei le neu heb gyhoeddi un arall).

(8) Rhaid i fframwaith prentisiaeth a gyhoeddir o dan yr adran hon ddatgan y dyddiad y daw i rym.

(9) Mae cyfeiriadau at fframwaith prentisiaeth yn yr adran hon yn cynnwys fframwaith diwygiedig.

**118 Cofrestr o fframweithiau prentisiaethau**

(1) Rhaid i'r Comisiwn gynnal cofrestr o'r fframweithiau prentisiaethau a gyhoeddir o dan adran 117.

(2) Mewn cysylltiad â phob fframwaith prentisiaeth (gan gynnwys unrhyw fframwaith diwygiedig), rhaid i'r gofrestr gynnwys manylion ynghylch pryd y daw i rym.

(3) Pan fo fframwaith diwygiedig wedi ei gynnwys yn y gofrestr, rhaid i'r gofrestr gynnwys disgrifiad cyffredinol o'r achosion y mae'r fframwaith diwygiedig yn gymwys iddynt.

(4) Pan fo fframwaith prentisiaeth wedi ei dynnu'n ôl, rhaid i'r gofrestr gynnwys manylion ynghylch pryd y daw'r tynnu'n ôl i rym a disgrifiad cyffredinol o'r achosion y mae'r tynnu'n ôl yn gymwys iddynt.

(5) Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi'r gofrestr.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynnwys gwybodaeth arall yn y gofrestr sy'n ymwneud â phrentisiaethau Cymreig cymeradwy.

**119 Pŵer i ddyroddi tystysgrifau prentisiaethau**

(1) Caiff y Comisiwn ddyroddi tystysgrif ("tystysgrif brentisiaeth") mewn cysylltiad â pherson sy'n gwneud cais amdani, os yw'n ymddangos i'r Comisiwn fod y person wedi cwblhau prentisiaeth Gymreig gymeradwy.

(2) Caiff y Comisiwn, yn dilyn cais, gyflenwi copi o dystysgrif brentisiaeth i berson y dyroddwyd y dystysgrif mewn cysylltiad ag ef.

(3) Caiff y Comisiwn benderfynu—
(a) y ffordd y mae rhaid i geisiadau am dystysgrifau neu am gopïau o dystysgrifau gael eu gwneud;
(b) cynnwys tystysgrifau.

(4) Ni chaiff y Comisiwn godi ffi am ddyroddi tystysgrif brentisiaeth neu am gyflenwi copi ohoni ond os yw rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn awdurdodi codi'r ffi, a dim ond i'r graddau y mae'r rheoliadau yn awdurdodi hynny.

**120 Dirprwyo swyddogaethau'r Comisiwn**

(1) Caniateir i swyddogaethau'r Comisiwn o dan adran 117(2) neu 119 gael eu harfer gan berson a ddynodir gan y Comisiwn.

(2) Caiff dynodiad o dan yr adran hon fod at rai dibenion y swyddogaeth neu at holl ddibenion y swyddogaeth.

(3) Rhaid i berson a ddynodir o dan yr adran hon—
- (a) cydymffurfio â chyfarwyddydau a roddir gan y Comisiwn, a
- (b) rhoi sylw i ganllawiau a roddir gan y Comisiwn.

(4) Caniateir i ddynodiad o dan yr adran hon gael ei ddirymu.

(5) Nid yw dirprwyo swyddogaeth yn effeithio—
- (a) ar allu'r Comisiwn i arfer y swyddogaeth, neu
- (b) ar gyfrifoldeb y Comisiwn am arfer y swyddogaeth.

(6) Caiff y Comisiwn dalu i unrhyw berson y mae unrhyw swyddogaeth yn arferadwy ganddo yn rhinwedd is-adran (1)—
- (a) symiau y mae'n ystyried eu bod yn briodol at ddiben talu am wariant yr aed iddo, neu wariant yr eir iddo, gan y person hwnnw wrth arfer y swyddogaeth honno neu mewn cysylltiad ag arfer y swyddogaeth honno;
- (b) unrhyw dâl y mae'n ei benderfynu.